


# Pecyn Adnoddau Athrawon ar gyfer Pijin | Pigeon
# GWANWYN 2023

## YNGHYLCH Y SIOE

**Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo, mewn cydweithrediad â Pontio**

**Yn seiliedig ar y nofel *Pigeon* gan Alys Conran**
**Addaswyd ar gyfer y llwyfan gan Bethan Marlow**

Mae Pijin yn un o filiwn. Dyna mae Iola, ei ffrind gorau, yn ei feddwl o leiaf. Dewr, doniol, ac ychydig yn beryglus, does neb arall y byddai'n well ganddi dreulio amser gyda nhw. Ond mae bywyd ymhell o fod yn fêl i gyd.

Mae Pijin yn dyheu am gyfle i ddianc oddi wrth y bywyd sy'n ei wynebu yn ei gartref bob nos. Dychymyg, straeon a geiriau yw ei unig fodd o oroesi. Ond, un diwrnod, dyw geiriau bellach ddim yn ddigon. Mae ei holl fyd yn dymchwel, a bywyd yn newid am byth.

Wedi'i gosod yng nghysgod chwareli llechi gogledd Cymru yn yr 1990au cynnar, mae hon yn stori afaelgar am dyfu i fyny, grym geiriau, cyfeillgarwch, a pha mor bell mae pobl yn fodlon mynd yn enw cariad.

Mae'r sioe yn seiliedig ar y nofel boblogaidd Pigeon gan yr awdur Alys Conran, wedi'i haddasu ar gyfer y llwyfan gan Bethan Marlow. Caiff Cymraeg a Saesneg eu plethu'n gelfydd i'w gilydd, a bydd pob perfformiad yn defnyddio capsiynau integredig yn Gymraeg a Saesneg.

Canllaw oedran: 13+ (yn cynnwys iaith gref a themâu o gam-drin domestig)

## CYFLWYNIAD

Mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer athrawon fydd yn dod â phobl ifanc i weld **Pijin | Pigeon** yng ngwanwyn 2023 mewn canolfannau ledled Cymru.

Anelir **Pijin | Pigeon** at bobl ifanc 13+ oed, ac oedolion. Crëwyd y pecyn i helpu athrawon i archwilio themâu'r cynhyrchiad cyn neu ar ôl eu hymweliad.

## DOLENNI I'R CWRICWLWM

I hwyluso'ch gwaith o adnabod pa weithgareddau sy'n ffitio i mewn gyda'r Cwricwlwm i Gymru newydd, rydym wedi datgan y **Meysydd Dysgu a Phrofiad** ar gyfer pob un, ynghyd â'r **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** perthnasol.

## CYNNWYS


GWYBODAETH AM THEATR GENEDLAETHOL CYMRU
GWYBODAETH AM THEATR IOLO
CRYNODEB
GWYBODAETH AM Y CYMERIADAU
GWEITHGAREDD 1 – Fy iaith. Fy hunaniaeth
GWEITHGAREDD 2 – Dysgu a hiraethu am iaith
GWEITHGAREDD 3 – Geiriau gwych!
GWEITHGAREDD 4 – Archwilio perthnasau
GWEITHGAREDD 5 – Ystyried ac adolygu
GWYBODAETH AM WEITHDAI

## GWYBODAETH AM THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Creu theatr Gymraeg eithriadol i bawb . . .

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn creu a chyflwyno cynyrchiadau theatr gyda'r nod o ddiddanu, cyffroi a chyfareddu ein cynulleidfaoedd a thanio'u dychymyg.

Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu sy'n fodd i feithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ynghyd â chynnig cyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau.

Bydd y cwmni, a ffurfiwyd yn 2003, yn dathlu ei 20fed pen blwydd yn 2023.

## GWYBODAETH AM THEATR IOLO

Nod Theatr Iolo yw cyfoethogi bywydau plant drwy brofiadau bythgofiadwy sy'n herio'r meddwl ac yn tanio'r dychymyg.

Am dros 35 mlynedd, mae Theatr Iolo wedi bod ar flaen y gad ym maes creu theatr i blant yng Nghymru. Rydym yn angerddol dros feithrin a thanio dychymyg a chreadigrwydd meddyliau ifanc, i helpu plant i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas ac i ddod o hyd i'w lle yn y byd hwnnw.

Rydym yn gweithio gyda'r artistiaid, yr awduron, a'r bobl greadigol orau i greu theatr fyw, gweithdai a gweithgareddau sy'n gofiadwy ac yn eofn, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff ein gwaith ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc ei deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

## CRYNODEB

Ar ddechrau'r stori mae Pijin a Iola'n naw mlwydd oed. A hwythau'n byw mewn pentref bach gwledig yng ngogledd-orllewin Cymru, mae'r ffrindiau gorau'n ceisio anghofio'r anawsterau yn eu bywydau bob dydd trwy chwarae triwant, adrodd straeon nad ydyn nhw'n wir, ac achosi trwbwl yn gyffredinol.

Ar ddechrau'r ddrama, dysgwn fod partner mam Pijin yn cam-drin yn gorfforol ac yn emosiynol; mae Iola'n byw gyda'i chwaer hŷn – does ganddi hi ddim rhagor o deulu.

Mae Gwyn, dyn lleol sy'n gwerthu hufen iâ, yn dioddef o ganlyniad i'r straeon mae Pijin yn eu hadrodd, gyda'r hyn a ddechreuodd fel stori ffug yn datblygu'n gyflym. Mae gweithredoedd Pijin a Iola'n arwain at ddamwain gyda'r fan hufen iâ, lle mae Cher (merch partner Mam) yn dioddef anafiadau difrifol fydd yn newid ei bywyd. Yn fuan wedyn mae Pijin a Iola'n rhoi tŷ Gwyn ar dân.

Wrth i'r stori symud yn ei blaen, caiff Pijin ei feio am ddamwain Cher ac mae partner Mam yn ymddwyn yn hynod dreisgar. Yn ystod dadl yn y cartref, gyda Pijin a Iola'n bresennol, caiff ei saethu'n farw.

Cyhuddir Pijin o'i ladd a chaiff ei anfon i sefydliad tebyg i Borstal yn Lerpwl. Yno, caiff ei guro gan ei gyd-breswylwyr am siarad Cymraeg, ac mae'n dysgu siarad Saesneg. Yn raddol, mae'n colli ei famiaith. Yn y cyfamser, yn ôl yng ngogledd Cymru, mae Iola a Cher yn ceisio bwrw 'mlaen gyda'u bywydau cystal ag y gallant. Yn absenoldeb Pijin, mae'r ddwy'n dod yn ffrindiau.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, daw Pijin yn ôl adref. Mae'n gwrthod siarad Cymraeg gyda Iola, ac ar y dechrau mae'r ddau yn cael trafferth i ailgysylltu. Mae Pijin yn gandryll am fod Cher yn dal i fyw gyda'i fam, tra bod Mam yn dioddef gyda'i hiechyd meddwl.

Mae Pijin a Iola'n ceisio dod i delerau â'r hyn ddigwyddodd yr holl flynyddoedd yn ôl. Cânt eu gorfodi i wynebu canlyniadau eu gweithredoedd, yn ogystal â beth yn union ddigwyddodd pan laddwyd partner Mam.

Ar ddiwedd y ddrama, mae bywydau'r ddau'n fwy heddychlon. Mae Iola'n sôn am fynd i ffwrdd i'r brifysgol. Mae Pijin yn cael swydd newydd yn codi waliau cerrig, ac yn dechrau ailhawlio ei famiaith. Mae yna obaith am ddyfodol gwell.

## Y PRIF GYMERIADAU

**PIJIN**
Bachgen yw Pijin sy'n byw mewn pentref bach yn Nyffryn Ogwen, gogledd-orllewin Cymru. Mae'n byw yno gyda'i fam a'i phartner newydd. Mae Cher, merch partner ei fam, hefyd yn byw gyda nhw. Ffrind gorau Pijin yw Iola.

Ar ddechrau'r ddrama mae Pijin yn 9 oed, ac ar ei diwedd mae'n 16. Cymraeg yw iaith gyntaf Pijin. Mae e'n ddewr, yn ddoniol ac ychydig yn beryglus: mae'n defnyddio'i ddychymyg a'i angerdd am eiriau ac iaith i'w helpu i fynd i'r afael â'i fywyd anodd ar yr aelwyd gartref.

**IOLA**
Mae Iola'n 9 oed ac yn dod o'r un pentref chwarelyddol yn Nyffryn Ogwen, gogledd-orllewin Cymru. Pan ddaw'r ddrama i ben, mae hi'n 16 oed. Cymraeg yw ei haith gyntaf.

Mae Iola'n cael ei magu gan Efa, ei chwaer hŷn, ac nid oes ganddi unrhyw deulu arall o'i chwmpas. Mae Iola'n ffrind ffyddlon a thriw i Pijin, ac yn cael ei chyfareddu ganddo ef a'i straeon rhyfedd. Er bod Iola'n alluog a chydwybodol mae'n hawdd dylanwadu arni, a chaiff ei denu at antur Pijin.

**CHER**
Mae Cher yr un oed â Pijin a Iola. Daw'n wreiddiol o dde Cymru, ac nid yw'n siarad Cymraeg. Yn ddiweddar, symudodd Cher i fyw yng nghartref Pijin mewn ardal wledig yng ngogledd Cymru gyda'i thad, partner newydd mam Pijin.

Mae Cher ar y cyrion ac yn awyddus i deimlo ei bod yn perthyn. Mae hi'n awyddus i fod yn ffrind i Pijin a Iola, ac yn fodlon gwneud unrhyw beth i geisio ffitio i mewn.

**GWYN**
Dyn sengl yn ei 40au yw Gwyn, o gefndir Eidalaidd. Mae'n berchen y fan hufen iâ leol ac yn gyfarwydd iawn i blant yr ardal. Mae'n byw ar ei ben ei hun yn y tŷ yr arferai fyw ynddo gyda'i fam hyd ei marwolaeth.

**MAM**
Ar ddechrau'r ddrama, mae mam Pjin yn ei 30au. Mae hi'n dioddef yn sgil cam-drin domestig, ac er ei bod yn ceisio bod yn gryf i Pijin mae hi'n hynod fregus ac wedi'i chreithio'n feddyliol gan y gamdriniaeth mae hi'n ei ddioddef.

**HIM**
Mae'n bartner i fam Pijin. Ynghyd â'i ferch, Cher, daw i fyw gyda Pijin a'i fam. Mae'n cam-drin Cher, Pijin a Mam yn eiriol ac yn gorfforol.

**CEFNDIR**

Mae **Pijin | Pigeon** yn defnyddio Cymraeg a Saesneg i archwilio themâu o hunaniaeth a pherthyn. Ar ddechrau'r ddrama, mae Pijin a Iola bron bob amser yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd, ond pan ddaw Pijin yn ôl adref yn dilyn ei gyfnod yn Lloegr, ar y dechrau mae'n gwrthod siarad dim byd ond Saesneg gyda hi.

**GWEITHGAREDD 1:**

***Trafodaeth ddosbarth i archwilio sut mae ieithoedd yn cyfrannu at synnwyr unigolyn o'i hunaniaeth a sut mae'n perthyn.***

Dyma rai awgrymiadau o gwestiynau y gallech eu gofyn i'ch dosbarth. Bydd pob dosbarth yn wahanol, felly byddem yn eich annog i addasu'r cwestiynau yn ôl yr hyn rydych yn ei wybod am yr unigolion yn eich dosbarth.

- *Heblaw am Gymraeg / Saesneg, ydych chi'n siarad unrhyw ieithoedd eraill gartref?*
- *Oes unrhyw un o'ch teulu'n siarad iaith nad yw wedi cael ei throsglwyddo i chi? Sut mae hynny'n gwneud i chi deimlo?*
- *Ydych chi'n teimlo'n falch o'r ieithoedd rydych yn eu siarad? Neu ydych chi weithiau'n teimlo embaras?*
- *Ydych chi erioed wedi ymweld â rhywle lle roedd iaith wahanol yn cael ei siarad? Sut oedd hynny'n gwneud i chi deimlo? Oedd yr iaith yn teimlo fel rhan o ddiwylliant y wlad roeddech chi'n ymweld â hi?*

**Cwestiynau ychwanegol y gallech eu gofyn ar ôl i'ch dosbarth fod yn gweld Pijin | Pigeon:**

- *Sut, yn eich barn chi, roedd Pijin yn teimlo wrth gael ei symud i Loegr lle nad oedd neb yn siarad Cymraeg?*
- *Sut mae defnydd Pijin o iaith yn newid yn ystod ei gyfnod oddi cartref?*
- *Pan ddaw Pijin yn ôl i Gymru, pam gredwch chi mae e'n gwrthod siarad Cymraeg gyda Iola?*

**DOLENNI ALLWEDDOL I'R MEYSYDD DYSGU A'R HYN SY'N BWYSIG**
**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu ni.
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Iechyd a Lles**

- Mae'r modd rydyn ni'n prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

**CEFNDIR**

Daw Cher, llys-chwaer Pijin, o dde Cymru a dyw hi ddim yn siarad Cymraeg. Mae'n ei chael yn anodd pan fo Pijin a Iola'n siarad Cymraeg gyda'i gilydd.

**GWEITHGAREDD**

**Yn dilyn ymlaen o'r drafodaeth yn y dosbarth, rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach, rhoi darn mawr o bapur a deunyddiau ysgrifennu i bob grŵp, a gofyn iddynt ddychmygu'r sefyllfa isod:**

*Rydych chi a'ch teulu'n symud i wlad arall lle nad oes neb yn siarad Cymraeg na Saesneg. Rhaid i chi fynd i ysgol newydd a dysgu'r iaith maen nhw'n ei siarad yno.*

**Rhannwch eich darn o bapur yn bedair ardal ac atebwch y cwestiynau isod:**

- *Sut byddech chi'n teimlo wrth symud i rywle lle nad oes neb yn siarad eich iaith/ ieithoedd chi?*
- *Sut gredwch chi y byddai disgyblion eich ysgol newydd yn eich trin?*
- *Beth fyddech chi'n ei wneud i'ch helpu i ddysgu iaith y wlad newydd?*
- *Sut gredwch chi y byddech yn teimlo am yr ieithoedd rydych yn eu siarad (eich iaith gyntaf ac ieithoedd ychwanegol) pe baech chi'n symud i rywle arall i fyw?*

**Gofynnwn i chi gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd gan rai plant brofiad byw o'r senario hon. Mae'n bosib y byddech am addasu'r gweithgaredd i sicrhau ei fod yn gynhwysol ar gyfer plant sydd wedi cael profiadau tebyg.**

**DOLENNI ALLWEDDOL I'R MEYSYDD DYSGU A'R HYN SY'N BWYSIG**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu ni.
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Iechyd a Lles**

- Mae'r modd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- Mae'r modd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.
- Mae perthnasoedd iach yn greiddiol i'n lles.

**CEFNDIR**

Mae Pijin wrth ei fodd gyda geiriau – eu sain, a sut maen nhw'n teimlo wrth eu hynganu. Mae geiriau'n rhan bwysig o'r modd mae Pijin yn adrodd straeon, ac yn gwneud iddynt swnio'n gyffrous a deniadol i Iola. Dyma hefyd un o'r pethau sy'n ei wneud yn beryglus.

**GWEITHGAREDD**

Trefnwch i gael trafodaeth fel dosbarth am eich hoff eiriau! Beth sy'n eu gwneud yn ddiddorol i chi? Dyma rai pethau y gallech eu trafod . . .

- *Sawl sill sydd ynddyn nhw? Ydy geiriau hir yn fwy diddorol?*
- *Ydy'ch hoff air yn swnio'n feddal neu'n galed?*
- *Ydy sain y gair yn gysylltiedig â'i ystyr? (Onomatopeia)*
- *Ydy e'n air cyffredin, neu'n anghyffredin?*
- *Pam mae rhai geiriau'n rymus?*
- *Beth yw pwynt geiriau rheg, a pham maen nhw'n cael eu galw felly?*
- *Oes unrhyw eiriau nad ydych chi'n hoffi eu sain?*

Ewch ati i archwilio gwahanol eiriau a / neu gyfuniadau o eiriau, a'u darllen yn uchel fel dosbarth i weld sut maen nhw'n teimlo wrth eu hynganu.

Ar ôl eich trafodaeth, ysgrifennwch gerdd fer am eich hoff air (neu unrhyw un o'r geiriau a awgrymwyd gan eich dosbarth) yn dweud pam ei fod yn wych a pham rydych chi'n hoffi ei sain. Fel arall, gallech ysgrifennu cerdd am air rydych chi'n ei gasáu!

**DOLENNI ALLWEDDOL I'R MEYSYDD DYSGU A'R HYN SY'N BWYSIG**
**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae ieithoedd yn ein huno ni.
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddysgu am y byd o'n cwmpas.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**CEFNDIR**

Mae perthynas Pijin – fel plentyn ac fel arddegyn – â'r cymeriadau eraill yn y ddrama yn mynd â ni ar daith emosiynol fel aelodau o'r gynulleidfa. O'i gyfeillgarwch gyda Iola i'w gariad at ei fam a'i gasineb at ei phartner, cawn weld holl gymhlethdodau'r teimladau a'r emosiynau sy'n rhan o brofiad Pijin yn ystod ei fywyd ifanc. Cawn gyfle hefyd i weld gwahanol elfennau o'i gymeriad wrth iddo lywio drwy'r cyfnod pontio o blentyn i oedolyn ifanc.

## GWEITHGAREDD

Yn dilyn trafodaeth ddosbarth ar berthynas y cymeriadau yn y ddrama, rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach a rhoi pentwr o gerrig, cerrig mân a brigau wedi eu casglu o'r tu allan iddynt. Rhowch enghreifftiau i'r dosbarth o wahanol rannau o'r ddrama a gofyn iddynt ddewis carreg, carreg fechan neu frigyn ar gyfer pob cymeriad yn y rhan honno sy'n gweddu orau i'r cymeriad. Er enghraifft, gallai carreg lefn gynrychioli Iola, fel trosiad o'i diniweidrwydd, a gallai carreg ac iddi ochrau siarp gynrychioli Pijin a'i ochr beryglus. Yna gofynnwch i'r plant osod y cerrig mân, y cerrig a'r brigau ar y bwrdd mewn perthynas â pha mor agos mae'r cymeriadau i'w gilydd o fewn yr olygfa. Ar ôl iddyn nhw wneud hynny, gallant gyflwyno'u syniadau i'r dosbarth am y modd y gosodwyd y cerrig mân, y cerrig a'r brigau a pham y dewison nhw y deunyddiau arbennig hynny i gynrychioli'r cymeriadau.

**DOLENNI ALLWEDDOL I'R MEYSYDD DYSGU A'R HYN SY'N BWYSIG**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Iechyd a Lles**

- Mae'r modd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- Mae'r modd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.
- Mae perthnasoedd iach yn greiddiol i'n lles.

**Dyniaethau**

- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a dynamig, a than ddylanwad prosesau a gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.

**CEFNDIR:**
Rhan bwysig a phleserus o weld perfformiad yw siarad amdano wedyn! Pa rannau oeddech chi'n eu hoffi fwyaf? Pa gymeriadau oedd eich ffefrynnau . . . neu pa rai roeddech chi'n eu casáu? Beth oedd eich barn am y gwisgoedd a'r set? Oedd yna unrhyw beth allai fod yn well?

Cyn bod pobl yn mynd i'r theatr, maen nhw'n aml yn darllen adolygiad i'w helpu i benderfynu p'un ai a ddylen nhw brynu tocyn ai peidio.

Yn dilyn y perfformiad, gofynnwch i'ch dosbarth ysgrifennu adolygiad o Pijin |Pigeon. Cyn gwneud hyn, efallai y byddech am ddarllen adolygiadau ar-lein o rai sioeau eraill er mwyn cael teimlad o'r arddull ysgrifennu a gweld pa wybodaeth allweddol maen nhw'n ei chynnwys.

Dyma restr o bethau y gallech feddwl amdanynt:

- Brawddeg agoriadol ddiddorol sy'n gwneud i'r darllenydd fod yn awyddus i ddarllen mwy.
- Pennawd sy'n crynhoi eich adolygiad.
- Gwybodaeth.
- Cynnwys (neu eithrio) rhyw foment allweddol . . . ond gofalwch beidio â datgelu unrhyw fanylion pwysig!

**DOLENNI ALLWEDDOL I'R MEYSYDD DYSGU A'R HYN SY'N BWYSIG**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, ac mae'n galluogi dysgwyr i fod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb ac adlewyrchu – fel artist ac fel cynulleidfa – yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

## GWEITHDAI

Os hoffech archwilio **Pijin | Pigeon** ymhellach, gallwn gynnig gweithdai arbennig i'ch grŵp ysgol neu brifysgol.

Mae croeso i chi gysylltu â Sian Elin Williams (Cydlynydd Cyfranogi Theatr Genedlaethol Cymru) i gael rhagor o wybodaeth ac i archebu: sian.elin@theatr.com

**Gweithdy Sgript – O'r Llyfr i'r Llwyfan**
Canllaw oed: CA4 +.
Byddwn yn teilwra'r gweithdy yn ddibynnol ar oed.

Cyfle gwych i ddisgyblion a myfyrwyr archwilio'r sgript a mwynhau gweithdy creadigol gydag awdur yr addasiad llwyfan, Bethan Marlow. Gall y gweithdy ddigwydd wyneb yn wyneb yn eich ysgol/prifysgol chi, neu yn y ganolfan perfformio, neu ar-lein, yn ddibynnol ar argaeledd.

**Gweithdai Cynhyrchu**
Canllaw oed - CA4 +.
Byddwn yn teilwra'r gweithdy yn ddibynnol ar oed.

Cyfle i fwynhau gweithdai gydag artisitiad sy'n rhan o'r tîm creadigol yn cynnwys y Cyfarwyddwr, Cynllunydd Set a Gwisgoedd, Golau, Sain a Rheoli Llwyfan gydag aelodau o gwmniau Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo. Gallwn hwyluso taith set hefyd, yn ddibynnol ar argaeledd. Mae hwn yn gyfle gwych i brofi gwaith theatr – o'r ystafell werdd i'r llwyfan. Dewch i gael blas ar fyd cefn llwyfan y theatr.